1.29

# STORI SHACI'R GWAS,

### *Gan SARNICOL.*

(TAFODIAITH Sir Aberteifi. GOLYGFA : Neithior yn agos i Landyssul. AMSER : Haner can mlynedd yn ol).

Wel, wel, dyma Mari yn briod a Dafy' mab ioua Ty'ncôd ;
Megis ddo rw i'n cofio i geni yn fabi bach perta ariôd.
I thad ? Rw i 'n i gofio fe'n net, druan, a'i dad a'i dacû gydag e ;
A thyma fi'n fyw i weld neithor i ferch heno yto 'n 'r un lle.

'Rwy'n was yma nawr, wel aroswch—os nad wy'n mistaco, fe fydd
Yn haner can mlyne Clyngeua, yn enill whech chinog y dydd,
Mi fues yn grwt yn bugila, a llynfu yn nyddie'i mangû ;
Mi ddyrnes am orie cyn brecwast godderbyn a'i thad a'i thacû.

Gyllinwch un faril yn rhagor, a galwch am ddamper bob un ;
I Shaci gâl amser i adrodd i stori fach ddismol, ddilûn.
'Stim syndod fod hireth yn pwyso ar Shaci sy'n hen ag yn gam,
Wrth weled y groten a fagodd yn madel ag aelwd i mham.

Un flyne ar bymtheg Ffair Llanarth ddiwetha, 'r odd Mari'n saith ôd,
A'i thad newy'i gladdu—fu bachgen ddim gwell yn y cwmydd ariôd.
Rown i'n heini a sgeiddig pryd hyny, ag yr own ar 'y nghryfdwr yn falch ;
Ag er nad mor ifanc a bues, yn gyru dou geffyl i'r calch.

Rodd Mari a'i gwallt fel yr olden, a'i gwrls dros i hysgwydd yn llâs,
A'i boche mor goch a'r grawelen, a'i llyged fel cenin o las.
Addewes rhyw dro cawsai ddwad am shwrne, ar weitha i mham,
Gyda fi yn y cart glas dou geffyl i'r Fan Galch i Gafyrddin bob cam.

O, amser nodedig odd hwnw, mi ddreifwn dan whiban yn braf,
A nhrâd ar y shafft drw Bencader a'r seren ar wybyr yr haf.
Dodd neb a dou geffyl mor sgeiddig, nag offer yn sheino yn fwy ;
Na chartwr mwy medrus na Shaci, ta chi'n whilo holl ffermydd y plwy.

Ond rhaid i fi ddachre fy stori—rown i'n dod o Gafyrddin un tro ;
'Rodd hi byti ddou yn y bore, ag yn dowyll, 'rwy'n cofio fel ddô,
'Rodd hi'n glòs ar y rhiw, ag fe whyse'r ceffyle wrth dynu y cart ;
Ag yn wir ma'n rhaid i fi gyfadde i fi alw mewn tafarn am gwart.

Pan ddoes i o'r diwedd i'r gwastod, 'rodd tipyn yn rhagor o âr,
Ag ele'r ceffyle'u hunen yn ddiddig dros fyny' Shir Gâr.
Mi neides i'r cart am ryw dipyn, i spario yn nghoese am spèl ;
Gorweddes a chysges fel deiar ; bwrddwydes a gweles—beth ? Wel—

Mi glywswn lais Tomos yn gweiddi—mi wn mai ychydig a'i cred—
Do, gweles, a chlywes dad Mari yn gweiddi,—" Dihuna, a rhed."
Dihunes, a rhwbies yn llyged, er 'u bod ar y ngweitha i'n cau—
A gwelwn i lawr yn Shir Bemro, fod ambell i fellten yn gwau.

Ond, twt ! mi feddylies, 's dim densher, ma mellt yn gyffredin yr haf,
Mi ddaw y cynhaua'n gynharach, a daw'r barlys i hodi yn braf.
Ma'r nosweth yn glòs, ag ma'r ddiod yn gref, ag yn gwasgu fel plwm—
Anghofies y breuddwd, ag yna dachroies ail gysgu yn drwm.

Yn y fan, mi ddachroies ail weled a chlywed i thad fel yr ôdd
Pan ôdd e yn fyw, yn y ngalw, a chododd yr alwad yn flô'dd.
Mi gwelwn e'n sefyll i fyny yng nghanol mân ithin y rhos,
Yn ymyl pwll enbyd, mi gwelwn yn glir yn y mellt yn y nos !

Dihunes a neides ar unwaith, heb feddwl am lein nag am ffrwyn :
'Doedd ise ond " We ! " i'r cyffyle—arosodd y ddou fel yr ŵyn.
Mi es dros y claw fel y milgi : drw'r dryssi a drw'r ithin mân :
Ag hyd heddy, nis gwn mwy na'r marw pwy shwt yr arwenwd fi mlân.

X205200358

’Rodd y mellt fel y nadrodd yn whare, a’r glaw yn dyferu fel pys .
Ond ymlan es drw ganol y cwbwl—a’n llyged yn llanw o whys.
’Dodd gen i ddychymyg beth odd yn y nreifo i fel hyn yn y blân ;
Nag amcan i ble’r own i ’n myned drwy’r ithin a’r dyfrodd a’r tân.

Ond ddoith mellten yn fwy na’r cyffredin, nes bo’r cyfan yn wynias i gyd—
A gwelwn ddyferion y gawad, ar ’u ffordd lawr o’r owyr i’r byd.
Mi welwn fynydde Shir Bemro, a llafur ’u hochre yn wyrdd
A’r teie yn wyn rhwng y coedydd, a’r glaw yn dysgleirio’r y ffyrdd.

Ond, beth odd yn symud at ddibyn hen gwarre ow’ar ’slawer dy’ ?
Beth, plentyn ! ond cyn câl i weld e a’th y cyfan drachefen yn ddu ;
Dychmyges fod rhwbeth yn gweiddi a rhedes fel gwallgo i’r lle ;
Heb feddwl am safan y cware agore yn salw ar y dde.

Onpai am y fellten wen yto ag un arall yn gloi ar i gwar—
Fforwel fai i’r plentyn a finne yn yfflon ar waelod y cwàr.
Gafeiles yn nillad y plentyn—mi scgrechodd a chwmpodd i’r llawr ;
Gorweddson yn dou ar y ddaear—’rodd hi fel y fagddu yn awr.

Ches i gyment a gaer gan y plentyn—a’th yn gelen fach oer yn yn llaw ;
’Rodd y dillad yn lyb ag yn bringon a’i gwallt yn dyferu gan law.
Datodes y dillad, a gwasges y nghot am y plentyn yn rhwym ;
A thynes y ngwasgod a rhoddes i thrâd bach yn hono yn dwym.

Ddoith mellten wen yto’n disgleirio yn ngwaelod y cwàr ar y llyn—
A thwrw ofnadw yn i dilyn a gwasgwn y fach yn fwy tyn ;
Mi es at yr hewl yn y nghyfer, a’r plentyn yn dyn yn y nghôl
A ches fod y cart a’r ddou geffyl yr un fan pan yr es i yn ol.

Mi rhoes hi yn dyner ag esmwyth yn y cart ar y garthen a’r gwellt ;
’Rodd y storom yn dachre mynd heibo a phellhau ’rodd y tyrfe a’r mellt ;
Mi gliriodd yr owyr yn fuan, ag yna mi dorodd y wawr—
’Rodd y plentyn yn dachre dihuno ag O ! mi nhabyddes hi nawr !

Agorodd y llyged bach gleison, symudodd y dwylo bach gwyn,
Ddoith y rhosis yn ol idd i boche gyda chochni yr houl ar y bryn.
Agorodd y wefus fach felus a gwedodd—" O Shaci, 'na falch
Ma Mari gâl dod o Gafyrddin, fel gwedest, ar ben y llwyth calch."

Do's ise dim gweyd wrthych ragor fod golwg ar Mari gen i :
A gwedwch beth fynnoch, mae golwg ar Shaci y gwas gyda hi ;
Fe whilodd i mham a'r cwmdogion am dani trw gydol y nos,
A whilo yr o'nt pan ddoes adre bob cornel o ddyffryn a rhos.

Ond ma diwedd i gâl ar bob storom—ddoith y bore yn glir ac yn lâs ;
Ddoith Mari ar ben y llwyth adre, yn gynnes yn nghot Shaci'r gwâs.
A dyma hi heddy yn briod yn heiny a glân yn yn mysg ;
Y groten fach berta drw'r cwmydd, beth bynnag a all fod i gwisg.

Mi leicech gâl clwed, aie? pwy'n ledodd i'n strêt dros y rhos,
I achub y plentyn rhag ange yn nghanol y storm yn y nos,
Wel, os tynniff neb byth o ben Shaci rhaid iddo fod wrthi yn dâr—
Mai ysbryd o'r Nefodd a'i ledodd pryd hyny ar fyny' Shir Gâr.

---

*PRIS CEINIOG.*

---

*Copyright. Cyhoeddedig (drwy ganiatad yr Awdwr) dros Gymdeithas Llen Dyffryn Teifi gan JOHN D. LEWIS, Gwasg Gomer, Llandyssul. 1906.*